

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref, Llanelltyd  
Nos Fawrth, Mehefin 14, 2016 am 7.30 o'r gloch.**

**Preseanol:** Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, a Carwyn Evans. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Gethin Williams (Is-gadeirydd) a Gareth Ellis.

**2. Datgan diddordeb:**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 10, 2016**

Wedi cywiro Eitem 10.b. 'prydiau' i ddarllen 'prydau', cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 10, 2016**

Eitem 5, Eitem 10.c.. Am fod y Cyngor ddim wedi cael cydnabyddiaeth gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ynglŷn â chael lle addas i gerddwyr / beicwyr croesi'r A470 i Bont y Wernddu, penderynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau ar y mater.

Eitem 6.dd. Wedi trafod prisiau mae Cyngor Gwynedd yn codi ar eu mynwentydd penderynwyd ddim newid ein prisiau a'n telerau.

Eitem 10.a. Cynhelir cyfarfod wedi'r Awdurdodau cwblhau eu hadroddiadau ar y damweiniau ac ar gyflwr y ffordd.

Eitem 10.b. Llythyr ateb (18 Mai 2016). Maent yn cadarnhau na fydd darpariaeth i baratoi bwyd yn yr estyniad newydd. Bydd y gegin bresennol yn cael ei addasu ar gyfer darpariaeth gweini'r bwyd a golchi llestri. Bydd y cinio yn cael ei baratoi yn safle Babanod Dolgellau ac yna yn cael eu cludo mewn cyfarpar arbennig i gludo bwyd. Am fod mwy na'r ffordd A470 i Llanelltyd nid ydynt yn rhagweld unrhyw broblem i gyrraedd Ysgol Llanelltyd os bydd y ffordd ar gau.

Adroddodd Peredur Jenkins am gyfarfod cafwyd gyda rhieni disgyblion yr ysgol a swyddogion Cyngor Gwynedd. Roedd y rhieni ddim yn fodlon gyda sylwadau y swyddogion ynglŷn â diffyg cegin yn yr ysgol ac roedd absenoldeb y pensaer ddim yn help. Ar hyn o bryd mae bwyd yn cael ei gario o Dolgellau i Ysgol Rhydymain ac mae gofal yn cael ei roi bod y bwyd sy'n cael ei roi i'r disgyblion yn gywir. Cafwyd gwybod tydi hi ddim yn angyffredin bod ysgol heb gegin.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEHEFIN 14, 2016

Mae llythyr wedi ei anfon i Cyngor Gwynedd yn gofyn am wybodaeth o'r costau i gael cegin yn yr ysgol a'r costau i gludo bwyd.

**5. Materion Ariannol**

a. Bil (30/04/16) am £292.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at gasglu gwastraff Mynwent Llanelltyd o 1/4/2016 i 31/3/2017.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Siec am £1080 oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at Alun Gwyn Edwards – claddedigaeth cyntaf £600 + hawl claddu £480.

c. Bil (14/5/2016) am £360 oddi wrth Paul Cook i agor bedd at Gladdedigaeth Gyntaf.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Llythyr (14/5/2016) gyda siec am £60 oddi wrth Dr J.M. Roberts, Ilkley a Mr Q. Roberts, Seland Newydd am wneud gwaith ymchwil ar feddi Althea Valerie Roberts a Martha Roberts. Nid oes beddfaen ar y beddi.

d. Archwiliwyd dogfennau y Cyngor gan Mr. J. D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, ac anfonwyd y dogfennau ymlaen i BDO LLP, Archwilwyr Allanol, ar 2/6/2016.

dd. Toiledau Bontddu. Cynigiodd Cyng. Janet Edwards ofalu am yr adeilad a phenderfynwyd derbyn ei chynnig caredig a rhoi 'honoraria' fesul tri mis yn dechrau o Ebrill (y cyntaf ddiwedd Mehefin) . Beth yw'r swm 'honoraria'? (O eitem 5.ch., cofnodion Ebrill 12, 2016)

Penderfynwyd i'r 'honoraria' fod yr un swm derbyniodd Gethin A. Corps.

e. Bil (14/6/2016) am £500 oddi wrth E.W. Davies am dorri gwair a defnyddio chwyn laddwr yn y fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

f. Balans yn y banc ar 29 Mai, 2016: £8,933.12.

**6. Mynwent Llanelltyd**

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (17/05/2016) gyda manylion o'r amseroedd a'r dyddiadau o'r prif bwyllgor yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn 2016/17.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEHEFIN 14, 2016

b. Cais cynllunio NP5/65/AD340. Cais am ganiatâd ar gyfer hysbysfwrdd. Maes Parcio Fiddler's Elbow, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

c. Llythyr (27/5/2016) yn rhoi gwybod am eu cyfarfod blynyddol gyda chynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned. Bydd y cyfarfod yn Coed y Brenin am 6.00yh ar ddydd Llun 18/7/2016. Amgâu mae agenda'r cyfarfod.

ch. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/65/305B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cais Adran 73 i ddiwyddu Amod Rhif 11 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/305 dyddiedig 13 Awst 2012 mewn perthynas â gofynion 'Côd Cartrefi Cynaliadwy'. Tir ger Fferm Ty'n Twll, Bontddu.

## **8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (Mai 2016) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd. Mae'r llythyr am gyfle i ni roi sylwadau ar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru (2015) sydd eisiau gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru..... i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. I weithredu'r Ddeddf mae Gwynedd yn cael ei ranu i gymunedau is-sirol bydd yn dod o dan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O dan is-sirol Dolgellau mae Abermaw, Corris, Dinas Mawddwy, Dolgellau, Dyffryn Ardudwy a Llanbedr. Os mae sylwadau mae'r Cyngor Gwynedd eu hangen cyn Mehefin 1, 2016.

b. Llythyr (19/5/2016) oddi wrth Adran Addysg, Cyngor Gwynedd. Amgâu mae Newyddlen Dalgylch y Gader, Gwanwyn 2016 sy'n cynnwys gwybodaeth ar ddatblygiadau'r gwaith o sefydlu'r Ysgol Ddilynol fydd yn agor ym mis Medi 2017.

c. Llythyr (27 Mai, 2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith arwisgo yn cael ei wneud ar ffordd A496 ger Bryn Melyn, Taicynhaeaf.

ch. Llythyr (8/6/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Roedd cyfarfod yn ddiweddar gydag Un Llais Cymru, Cynghorwyr Gwynedd a swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn â chynghorau cymuned a thref i fod yn gyfrifol am finniau halen. O'r cyfarfod mae rhaid i'r cwmni sydd am lenwi biniau â halen fod efo trwydded bwrpasol i weithio ar ochr ffordd. Bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gwmniau sydd gyda thrwydded o'r fath. Bydd y gost o lenwi bin gyda halen yn +£30. Roedd Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn awgrymu fod mantais i ddewis Cyngor Gwynedd yn hytrach nag cwmni arall am wasanaeth o ail-lenwi biniau halen; hefyd bydd y Cyngor yn gyfrifol am adnewyddu biniau halen sydd wedi eu difrodi. Bydd y gost o osod bin newydd yn llai na £281.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEHEFIN 14, 2016

Penderfynwyd gofyn i Un Llais Cymru am gopi o'r gost fanwl oedd Cyngor Gwynedd wedi ei baratoi at wasanaethu binniau halen.

d. Llythyr (10/6/2016) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd yn gofyn am ein barn i'r Cyngor cyflwyno cwmni preifat i gyd weithio gyda thim gorfodaeth y Cyngor i roi dirywion ar droseddau ymwneud a sbwriel, baw ci, sbwriel ysmegu, graffiti ayyb. Amgau mae ffurflen i'w gwblhau.

Penderfynwyd cefnogi eu bwriad i gyflwyno cwmni preifat i gyd weithio gyda thim gorfodaeth y Cyngor.

### **9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Mae cynnwys yr adroddiad yn y cofnodion.

b. Cafodd Carwyn Evans ei longyfarch am y cyngherdd cynhalwyd yn Porthmadog yn ddiweddar lle'r oedd y Cory Band a disgyblion Ysgol y Gader yn perfformio.

### **10. Materion Brys**

a. Isod mae copi o Polisi Iaith, Cyngor Cymuned Llanymstumdwy. Mae'r copi o wefan y Cyngor. Ydy'r Polisi yn dderbyniol i Cyngor ni gyda newidiadau?

## **POLISI IAITH CYNGOR CYMUNED LLANYSTUMDWY**

1. Cymraeg yw iaith y Cyngor.
2. Cedwir y cofnodion yn Gymraeg.
3. Y Gymraeg a ddefnyddir ar gyfer unrhyw weinyddiaeth.
  - (i) Bydd unrhyw ohebiaeth uniaith Saesneg a dderbynnir oddi wrth gyrff stadudol yng Nghymru yn cael ei chydabod yn Gymraeg gan y Clerc gyda'r troad, neu mor fuan ag sy'n ymarferol, yn gofyn am fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog o'r cyfryw lythyr ar fyrder.
  - (ii) Dymuniad y Cyngor yw gohebu yn Gymraeg ag unrhyw sefydliad arall neu unrhyw gwmni sydd â phencadlys yng Nghymru. Bydd y Cyngor yn ceisio gohebu â hwy yn Gymraeg cyn defnyddio'r Saesneg. Nodir dymuniad y Cyngor i ohebu yn Gymraeg ar unrhyw ohebiaeth Saesneg.
  - (iii) Cadarnheir arferiad y Cyngor o ohebu ag etholwyr unigol yn Gymraeg gan ateb llythyrau Saesneg yn Saesneg.
  - (iv) Pan fyddwn yn defnyddio dwy neu ragor o ieithoedd, bydd blaenoriaeth bendant i'r Gymraeg. Os oes amheuaeth ynghylch cyfieithiad cymerir y fersiwn Cymraeg fel yr un cywir.
4. Os bydd y Cyngor yn hysbysebu yn y wasg, bydd yr hysbysebion yn Gymraeg neu yn ddwyieithog, gyda blaenoriaeth bendant i'r Gymraeg.
5. Byddai'n dddmunol i unrhyw gytundeb ar ran y Cyngor fod yn y Gymraeg os yw'n bosibl.
6. Os bydd y Cyngor yn cyflogi unrhyw weithiwr, bydd y Gymraeg yn gymhwyster manteisiol.
7. Bydd y Cyngor yn ddieithriad yn rhoi ystyriaeth i effeithiau ieithyddol a diwylliannol ar unrhyw gais cynllunio. Bydd y Cyngor yn ystyried niwed i'r iaith yn ddigon o reswm ynddo'i hun i argymhell gwrthod unrhyw gais cynllunio.
8. Bydd y Cyngor yn argymhell i unrhyw gorff sy'n ceisio nawdd gennym, ei fod yn mabwysiadu polisi iaith sy'n rhoi blaenoriaeth bendant i'r Gymraeg.

Llofnod:

Dyddiad:

4

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEHEFIN 14, 2016

Mabwysiadwyd: Gorffennaf 2014.

Bydd y polisi hwn yn cael ei ddiweddarau bob pedair blynedd, neu ynghynt na hynny yn sgîl rheoliadau newydd neu newid mewn deddfwriaeth. Bydd angen mwyafrif o ddeuparth o'r holl Gynghorwyr i newid y polisi.

Llofnodwyd gan:

Penderfynwyd mabwysiadu'r polisi gyda newidiadau i'w wneud yn bwrpasol i ni a chynnwys yn Eitem 3.(iii): 'a darparu Cofnodion yn Saesneg os mae angen'.

b. Penderfynwyd gwneud ymholiadau a Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd:

i. beth yw statws y ffordd o'r gyffordd sydd ar gyfer Minffordd, Llanelltyd i'r Hen Bont Llanelltyd a phwy sydd yn gyfrifol amdani. Mae angen torri gordyfiant ar ochr y ffordd yn enwedig rhwng y gât a'r bont.

ii. mae angen sgubo dail yn Bontddu.

iii. mae angen torri gwair ar ochr y ffyrdd yn enwedig ar gyffyrdd.

iiii. beth yw polisi Cyngor Gwynedd am dorri gwair ar ochr ffyrdd.

-----